

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Hydref 2016

Annwyl Simon,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref yn holi ynghylch y fframwaith cyllidol, yn cyflwyno sylwadau ar briodoleddau aelodau bwrdd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ac yn holi am yr adroddiad gweithredu blynyddol diweddaraf ar Ddeddf Cymru 2014.

Rwyf yn croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y trafodaethau ar y fframwaith cyllidol, sy'n mynd rhagddynt yn unol â'r amserlen. Ddydd Llun, cyfarfûm â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar gyfer trafodaethau adeiladol ar y trefniadau newydd. Archwiliwyd ystod o opsiynau ar gyfer addasu grant bloc Cymru ochr yn ochr â datganoli trethi, gan ymchwilio i sut y byddai'r rhain yn rhyngweithio â fformiwla Barnett a'r arian gwaelodol. Ystyried hefyd o dan ba amgylchiadau y dylai effeithiau penderfyniadau ar bolisi trethi arwain at drosglwyddo cyllid rhwng y ddwy lywodraeth.

Rydym yn bwriadu cyfarfod eto yn dilyn Datganiad yr Hydref a ddisgwylir ar 23 Tachwedd. Mae'n bosibl o hyd y gallwn gytuno ar y fframwaith cyllidol cyn y Nadolig. Byddaf yn amlinellu manylion y cytundeb i'r Cynulliad cyn gynted ag y deuir i gytundeb. Nid wyf yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i osod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyn y flwyddyn newydd.

Rwyf yn ddiolchgar am syniadau'r Pwyllgor ar sgiliau a phriodoleddau o'r rhai a benodwyd i Fwrdd ACC. Cytunaf yn llwyr y dylai'r penodiad gydymffurfio ag egwyddorion Nolan.

Fel rydych yn nodi, ni fwriedir i'r ddau adroddiad blynyddol ar weithredu Deddf Cymru 2014 ar waith (a gynhyrchwyd ar wahân gan Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru) gael eu gosod gerbron y Cynulliad a'r Senedd tan 17 Rhagfyr. Rwyf yn credu ei bod yn annhebygol iawn y bydd adroddiad Gweinidogion Cymru ar gael yn ddigon cynnar i alluogi'r pwyllgor i'w ystyried ei ar 15 Rhagfyr. Efallai yr hoffech felly ystyried yr adroddiad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithredu (neu'r ddau adroddiad gweithredu o bosibl) ynghyd ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yn Gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive style with a large initial 'M'.

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government